

Rhagfyr 2017

Gair gan y Blaenoriaid

Annwyl Aelodau a Chyfeillion,

Hoffem ymestyn croeso cynnes i Paul Evans fel Blaenor newydd.

Mae Mrs Catherine Jones am ymdeol ar ôl tros 70 mlynedd o wasanaeth clodwiw fel organyddes yn y Capel. Gan hynny rydym angen organydd/es i lenwi'r bwlch. Cysylltwch â ni os oes gennych ddiddordeb neu os y gwyddoch am rywun arall a allai fod â diddordeb.

'Capel y Waun' fydd enw'r capel o'r cyntaf o Ionawr, 2018.

Mae'r Capel yn casglu bwyd ar gyfer 'Banc Bwyd Caernarfon'. Bydd bocsus casglu ar waelod y grisiau wrth ddwy fynedfa'r Capel ynghyd ac/neu o'r tu fewn i ddrysau ffrynt y Ffestri. Yn ogystal mae Siop y pentref wedi cytuno i fod yn fan casglu. Byddwn yn mynd a chynnwys y bocsus i'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon pob mis. Mae mwy o wybodaeth am y Fanc Bwyd Caernarfon ar <https://www.facebook.com/BancBwydCaernarfonCaernarfonFoodbank/>

Mae'r Capel am gyfrannu £120.00 tuag at 'Corwynt Cariad', apêl y Cyfundeb am eleni. Croeso i chi gyfrannu arwahan fel unigolion.

A yw modd i chi adael i ni wybod beth allwn ei wneud yn wahanol i wneud gweithgaredd Capel y Waun yn fwy perthnasol i chi? Beth am ofyn i rai nad ydynt yn mynychu oedfaon ar hyn o bryd?
Os oes gennych unrhyw syniadau/sylwadau yr hoffech i ni eu hystyried gadewch i un o'r Blaenoriaid wybod neu rhowch nodyn yn y blwch syniadau newydd. Fe'i leoli'r naill a'i yn y Capel neu'r Ffestri. *Y Blaenoriaid*

Ysgol Sul

Mae'r Ysgol Sul wedi bod yn defnyddio llyfrau'r 'Scripture Union' i ystyried y deg gorchymyn ac ufudd-dod yr Isreliaid tra yn yr anialwch a'r ôl ffoi o'r Aifft.

Ymunwch â ni yn yr Ysgol Sul ar facebook o dan y pennawd 'Saint Y Waun'.

Cynllun EFE



Catrin Hampton

Dechreuodd Catrin Hampton ei gwaith fel Gweithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Cynllun Efe ym mis Medi 2017. Cafodd ei phenodi o dan drefniant newydd ar y cyd ag eglwys Caersalem, Caernarfon a Scripture Union.

Bydd cyfle i gyfarfod Catrin yn fuan ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda hi.

Amrywiol

Ymweliadau – Os y gwyddoch am unrhyw aelod neu gyfaill y Capel sy'n wael neu yn yr Ysbyty gadewch i Flaenor wybod.

Rhowch eich cyfeiriad e-bost i capelywaun@btinternet.com os hoffech dderbyn Cadwyn Gyswllt trwy'r cyfrwng hwnnw.

Golygydd tros dro: Eurwyn Griffith – rhif ffôn 01286 650347